

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Plant a Gofal Cymdeithasol

Cefndir

1. Ar 13 Hydref, gosododd Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol¹(y Memorandwm) ar gyfer y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol² (y Bil) sydd ar hyn o bryd gerbron Senedd y DU. Mae'r Memorandwm yn ymwneud â chymalau yn y Bil fel y'i diwygiwyd, sy'n cynnwys darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn cynnwys manylion am y broses am ganiatâd mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ôl y confensiwn, mae gofyn iddi gael cydsyniad y Cynulliad cyn pasio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Bydd y Cynulliad yn rhoi'r cydsyniad hwn drwy gyfrwng Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.
3. Cyn y gall cynnig cydsyniad deddfwriaethol gael ei gyflwyno, rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth dan sylw gael ei osod a gellir ei ystyried gan bwyllgor neu bwyllgorau'r Cynulliad. Yn yr achos hwn, cafodd y Memorandwm ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried a chyflwyno adroddiad arno.

Amcanion Polisi a Chrynodeb o'r Bil

4. Yr amcanion polisi a nodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw gwella gwneud penderfyniadau a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol yng Nghymru a Lloegr; galluogi gwell dysgu am ddulliau effeithiol i amddiffyn plant a darpariaeth ehangach gofal cymdeithasol plant yn Lloegr a galluogi sefydlu trefn reoleiddio newydd yn benodol ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol yn Lloegr.

¹ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol

² Y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol



5. Mae gan y Bil nifer o fesurau sydd ond yn berthnasol i Loegr, mae'r rhain yn cynnwys:

- darpariaethau sy'n anelu at wella gwneud penderfyniadau a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol;
- egluro pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd mewn awdurdod lleol i sicrhau perfformiad priodol i grŵp o awdurdodau sydd wedi cyfuno eu gwasanaethau o dan Fargeinion Dinesig neu drefniadau tebyg;
- galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu Panel Adolygu Arfer Diogelu Plant ar gyfer adolygu achosion difrifol o ddiogelu plant yn Lloegr, a chyhoeddi'r canlyniadau;
- darpariaethau ynghylch rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol.

6. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr yn ymwneud ag achosion gofal a mabwysiadu sy'n ehangu ystod y ffactorau y mae'n rhaid i lysoedd ac asiantaethau mabwysiadu eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am fabwysiadu plentyn.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

7. Ceisir cydsyniad ar gyfer agweddau ar y gwelliant i gymal 9 o'r Bil a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Nash³. Mae'r gwelliant yn diwygio'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002⁴. Mae Adran 1 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu hystyried gan y llysoedd ac asiantaethau mabwysiadu wrth ddod i benderfyniad ynghylch mabwysiadu plentyn.

8. Bydd y gwelliant yn mynnu bod asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru yn rhoi sylw i'r un ffactorau â'r rhai sy'n gwneud cais i asiantaethau mabwysiadu yn Lloegr a'r llysoedd. Bydd y gwelliant hefyd yn golygu ar gyfer asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru bydd darpar fabwysiadwyr yn awr yn cael eu cynnwys yn y rhestr o berthnasoedd y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt wrth wneud penderfyniad am fabwysiadu plentyn.

³ Rhestr o welliannau wedi'u didoli: [Gwelliant 32](#)

⁴ [Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002](#)



9. Cafodd y gwelliant i gymal 9 ei gyflwyno gan yr Arglwydd Nash ar gais Llywodraeth Cymru⁵. Cytunwyd ar y gwelliant ar 18 Hydref 2016⁶.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

10. Mae'r Memorandwm yn nodi yn gywir bod angen caniatâd ar gyfer yr elfen asiantaeth fabwysiadu o'r ddarpariaeth gan ei bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud ag amddiffyn a lles plant (gan gynnwys mabwysiadu a maethu) o dan baragraff 15 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Priodoldeb y dull deddfwriaethol

11. Ym marn Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Memorandwm, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys ar gyfer Cymru.

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydsynio i'r darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi yn y Memorandwm:

- mae'n bwysig bod y darpariaethau yn cwmpasu asiantaethau mabwysiadu a leolir yng Nghymru gan y bydd yn galluogi dull cydlynol at fabwysiadu gan y llysoedd ac asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru a rhwng asiantaethau mabwysiadu yn Lloegr ac yng Nghymru.
- bydd gwneud y ddarpariaeth hon ar gyfer Cymru yn y Bil yn cefnogi eu hymrwymiad i sicrhau bod mabwysiadu yn opsiwn pwysig ar gyfer parhauster i'w ystyried pan nad yw plant yn gallu cael eu magu yn eu teuluoedd biolegol eu hunain. Bydd y ddarpariaeth ddiwygiedig yn sicrhau cysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau am fabwysiadu drwy sicrhau bod asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru yn ystyried ansawdd perthynas y plentyn gyda'i ddarpar fabwysiadwyr.
- Bydd y gwelliant i'r Bil hefyd yn darparu eglurder mewn achosion sydd ag elfen drawsffiniol trwy alluogi cymhwyso'r un darpariaethau i asiantaethau mabwysiadu

⁵ Llythyr gan yr Arglwydd Nash 11 Hydref 2016

⁶ Hansard. Tŷ'r Arglwyddi: 18 Hydref 2016



yng Nghymru a Lloegr ar yr un pryd. Ar ben hynny, bydd y Bil yn dod â newidiadau i rym ar gyfer asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru ar yr un pryd â'r llysoedd. Bydd hyn yn darparu dull cydlynol i unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â mabwysiadu ac yn golygu nad oes bwlch amser rhwng cymhwyso'r gofynion newydd i'r llysoedd a'u cymhwyso i asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru.

Ymgynghoriad

13. Mae'r Pwyllgor wedi ymgynghori â Adoption UK Cymru, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a'r Gymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu (AFA) Cymru. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn croesawu'r cynnig i gymhwyso'r newidiadau arfaethedig yng Nghymru, ac yn nodi y byddai pryderon yn cael eu codi os na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hymestyn i Gymru.

Ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor

14. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm ar 2 Tachwedd 2016. Mae'r Pwyllgor yn fodlon y bydd y Bil yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru, at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ar sail y Memorandwm a gyflwynwyd, nid oes gan y Pwyllgor unrhyw bryderon ynghylch y dull a gymerir.

15. Mae ymgynghoriad ag asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru wedi dangos bod yna gefnogaeth i'r darpariaethau hyn, ac y dylent fod yn gymwys i Gymru.

16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cynulliad yn cefnogi'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gan ei fod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil y DU hwn gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

